



CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Prawf Cyfieithu ar y Pryd 6 Chwefror 2015 Adroddiad Cyffredinol

YR YMGEISWYR

Cafwyd 2 ymgeisydd y tro hwn, 1 yng Nghaerdydd ac 1 yn y Groeslon.

Y DARNAU PRAWF

Darn 1: Sesiwn graffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn ym Mhwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ble mae Anne Keane, Prif Arolygydd Estyn, Meilyr Rowlands a Simon Brown, y Cyfarwyddwyr Strategol yn ateb cwestiynau gan Simon Thomas o Blaid Cymru a Keith Davies o'r Blaid Lafur.

Darn 2: Darn o raglen Siarad o Brofiad, S4C, lle mae Gwion Lewis yn cyfweld â'r Arglwydd Dafydd Ellis Thomas ynglŷn â'i yrfa wleidyddol, ei berthynas â'r teulu brenhinol a materion dadleuol fel ei feirniadaeth o araith Leanne Wood, Arweinydd Plaid Cymru, yng nghynhadledd y blaid.

Roedd y ddau asesydd o'r farn bod y darnau'n rhai heriol ond teg – y naill yn ffurfiol ac yn gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth o'r byd addysg a'r llall yn llawer mwy anffurfiol ac yn cwmpasu materion cyfoes a hanes y Cynulliad. Roedd cyflymder y darn cyntaf yn fwy hamddenol na'r ail.

Y SAFON

Roedd y safon yn gyson â'r hyn a welwyd yn y profion a gynhaliwyd dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf a chafwyd yr argraff, unwaith eto, bod y rhai sy'n ymgeisio yn gymharol newydd i'r maes. Gwelwyd hefyd y patrwm cyffredin ble roedd ymgeiswyr yn llawer mwy cyfforddus a hyderus gydag un darn o gymharu â'r llall, gan awgrymu eu bod yn fwy cyfarwydd â meysydd trafod penodol ac roedd hyn yn arwain at amrywiad yn safon y cyfieithu rhwng y ddau ddarn. Yn hyn o beth, byddai'r ymgeiswyr yn elwa ar fagu profiad mewn meysydd ehangach.

Geirfa

At ei gilydd roedd yr eirfa gyffredinol yn dda a'r eirfa dechnegol yn dderbyniol, gyda'r ymgeiswyr yn cyfieithu geiriau fel '*y Gymanwlad*', '*y frenhiniaeth*', '*ymarferwyr da*', '*canolfannau rhagoriaeth*', '*ymatal*' ac ati yn gymharol ddidrafferth. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau o fethu geiriau a oedd wedi'u cynnwys yn y wybodaeth a roddwyd i'r ymgeiswyr am y darnau (er enghraifft '*follow-up inspection*' a '*legislature*'), gan awgrymu na fanteisiwyd i'r eithaf ar y chwarter awr cyn y prawf i ddarllen y wybodaeth hon yn drylwyr.

Deall, dehongli a chywirdeb

Roedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i ddeall a dehongli'r darn cyntaf yn gymharol gywir er bod mân enghreifftiau o golli ystyr mewn manau. Dangosodd y cryfaf yr hyder i gywiro ei hun heb amharu ar lif y darn. Fodd bynnag, roedd yr ail ddarn yn fwy o her a chafodd yr ymgeiswyr eu taflu'n llwyr gan ambell beth e.e. the Royal Standard, sy'n awgrymu o

bosibl nad oeddent yn gyfarwydd â hanes y Cynulliad. Yn ogystal, collwyd ambell air allweddol sylfaenol fel 'Llywydd **cyntaf**' a chafwyd llithriadau fel y defnydd o 'law' yn hytrach nag 'act' (deddf), 'insurance' yn hytrach nag 'assurance' a 'principles' yn hytrach na 'values' gan amharu ar ystyr ac ergyd y frawddeg.

Cystrawennu ac idiomau

Cafwyd enghreifftiau o gystrawennu celfydd ac idiomau cynhenid a naturiol, e.e. *ultimately* (yn y pen draw), *prospective leaders* (darpar arweinwyr), *flawed* (roedd y cyfansoddiad yn llanast), *controversy* (nyth cacwn), *beheaded* (torri eu pennau). Gwelwyd defnydd da o fyfoddau hefyd ee. *the UK* am 'y Deyrnas Unedig'.

Ar y llaw arall, clywyd cyfieithu llythrennol mewn manau gyda chystrawennu gwan ynghyd â'r defnydd o Saesneg anidiomatig neu idiomau amhriodol e.e. *closing to* (nesáu at); *the process was started of change; raised some eyebrows* (codi nyth cacwn); *polau pinion* (polau piniwn); *contrary to the benefit* (yn groes i fuddiannau); *there are such things as party discipline; that's why I had the job*;

Fel y crybwyllwyd mewn adroddiadau blaenorol, cystrawennu yw'r prif wendid yn aml yn y profion hyn, a dyma'n aml sy'n gwneud y gwahaniaeth rhwng cyfieithiad derbynol a chyfieithiad da.

Arddull

At ei gilydd, cafwyd ymgais i bwysleisio a llywio'n ddeallus, gan amrywio tŷn y llais. O ran stamina, llwyddodd y ddau ymgeisydd i ddal ati hyd y diwedd ond synhwyrwyd bod y gwannaf yn diffygio tua'r diwedd.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i annog y rhai sy'n ystyried sefyll y prawf yn y dyfodol i fanteisio i'r eithaf ar yr hyfforddiant a gynigir gan y Gymdeithas, ac yn benodol felly y sesiynau ymarfer ar gyfer y profion cyfieithu ar y pryd. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ymgynefino ag amgylchiadau'r prawf, yn ogystal â chael sylwadau cyfieithydd ar y pryd profiadol ar eu gwaith.

Y CANLYNIAD

Roedd yr aseswyr yn gytûn ar eu dyfarniad ar y ddau gais. Dyfarnwyd bod un ymgeisydd yn llwyddo ac un yn methu

GAIR O DDIOLCH

Fel Dirprwy Arholwr, hoffwn ddiolch i'r aseswyr am eu gwaith manwl a thrylwyr ac i staff y Gymdeithas am eu cymorth a'u harweiniad parod.